JONES, OWEN GLYNNE (1867 - 1899), mynyddwr ac athro ysgol

Enw: Owen Glynne Jones
Dyddiad geni: 1867
Dyddiad marw: 1899
Rhiant: Eliza Jones (née Griffiths)
Rhiant: David Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: mynyddwr ac athro ysgol
Maes gweithgaredd: Addysg; Chwaraeon a Gweithgareddau Hamdden
Awdur: Ioan Bowen Rees

Ganwyd 2 Tachwedd 1867 yn 110, Clarendon St., Paddington, y pedwerydd o chwe mab David Jones, saer maen, a'i wraig Eliza (ganwyd Griffiths) y ddau o Abermaw, Meirionnydd. Bu farw ei fam yn 1882 (a'i dad yn 1890) a chafodd Owen a'i unig chwaer Neli (Margaret Ellen) gartref gyda chyfnither a'i gŵr, yr Henadur John Evans, 11 Brogyntyn, Abermaw. Cymraeg oedd iaith yr aelwyd hon. Y mae'n debyg i Owen fod yn yr ysgol yn Abermaw yn ogystal ag yn Llundain cyn ennill ysgoloriaethau i Goleg Technegol Finsbury ac i'r Imperial Institute (Imperial College) lle graddiodd (B.Sc.) yn y dosbarth cyntaf yn 1890. Wedi cyfnod yn ddarlithydd yn yr Institute, penodwyd ef yn athro gwyddoniaeth City of London School yn 1892, y cyntaf i ddal y swydd honno. Ceisiodd am Gadair ffiseg Coleg Aberystwyth yn 1891 ac yn ôl Syr Owen Saunders, F.R.S., mab ei chwaer a Phrifathro Imperial College, 1946-67, cyflawnodd waith ymchwil nodedig.

Ym Mai 1888, heb wybod mwy am fyd dringo nag a ddarllenodd mewn llyfrau ar yr Alpau, esgynnodd Jones grib ddwyreiniol y Cyfrwy ar Gadair Idris ar ei ben ei hun. Prin fod dringo creigiau wedi cychwyn o ddifrif yn Eryri ond yr oedd W. P. Haskett Smith ac eraill wedi bod wrthi yn Ardal Llynnoedd Lloegr ers rhyw 3 blynedd. Aeth Jones i Wasdale yn 1890 a tharo ar rai o'r arloeswyr. Yn wyneb ei gryfder eithriadol, ei ddawn dringo 'oruwchnaturiol bron' a'i agwedd wyddonol, buan y rhagorodd arnynt, nid yn unig wrth arwain dringfeydd newydd ond wrth ddatblygu'r grefft o ddringo. Yn 1894 cyfrannodd adran ar Gadair Idris a'r Aran i ail gyfrol *Climbing in the British Isles* Haskett Smith, ac yna aeth ati i baratoi cyfrol lawer mwy sylweddol a dylanwadol ei hun: llyfr ar ddringfeydd craig a gyfunai fanylder disgrifiadol gyda hanes ei anturiaethau. Yn Ebrill 1896, ymwelodd â'r brodyr George ac Ashley Abraham, ffotograffwyr proffesiynol o Keswick, a'u hudo i'r creigiau. Ffrwyth partneriaeth gyda hwy oedd clasur Jones, *Rockclimbing in the English Lake District* (1897) a chyfrol y brodyr, *Rock-climbing in North Wales* (1906). Gwyddai'r brodyr fod Jones yn paratoi cyfrol arall, daeth rhai o'i nodiadau i'w meddiant ar ôl ei farwolaeth ac aethant ymlaen i 'gyflawni ei ddymuniad ef'. Erbyn hyn yr oedd George Abraham wedi priodi cyfnither Jones, Winifred Davies, merch David Davies, brawd ' Mynorydd ' - hithau hefyd yn ddringreg fedrus ac yn raddedig o Brifysgolion Cymru (Bangor) a Chaergrawnt: hyhi yn wir a ysgrifennodd lyfrau niferus George Abraham ar sail nodiadau ei gŵr. Ond llyfr Jones a roes gychwyn i'r arfer o raddio dringfeydd ac a ddechreuodd boblogeiddio dringo creigiau fel y cyfryw.

O 1891 ymlaen, ymwelai Jones â'r Alpau yn flynyddol. Torrodd dir newydd trwy ddringo yn y gaeaf ond ni ddaeth o hyd i gydymaith cyson o'r safon uchaf, yn dywysydd nac yn amatur. Lladdwyd ef ar 28 Awst 1899, pan gwympodd y tywysydd ar ei ben ar grib orllewinol y Dent Blanche, gan dynnu pedwar o'r parti o bump i lawr y dibyn. Claddwyd ef ym mynwent Evolene a gosodwyd cofebau iddo yn City of London School, yn eglwys Saesneg Zermatt, a ger drws 11 Brogyntyn, Abermaw.

Gwasanaethodd Jones ar bwyllgor cyntaf y Climbers' Club, a ffurfiwyd yn 1898, ac etholwyd ef i'r Alpine Club. Ni dderbyniwyd ef yn llwyr gan gylch mewnol, dethol dringwyr Lloegr, fodd bynnag, a chafodd yr enw ganddynt o fod yn swta. Ond dringai Jones yn aml gyda'i chwaer, ei gefndryd, ei gydathrawon, ei gyd-letywr yn Llundain, W. J. Williams a gyda'r Abrahamiaid (Ymneilltuwyr o dras gwerinol fel yntau) - mae eu tystiolaeth hwy yn hollol i'r gwrthwyneb: felly hefyd y cof amdano ym Meirionnydd. Fel athro yr oedd yn ymroddedig a gafaelgar; fel dringwr credai y dylai pawb ddringo a bod dringo o les i bawb. Erbyn hyn daeth byd dringo llai uchelwrol i'w gydnabod yn arloeswr pennaf y grefft o ddringo creigiau yng ngwledydd Prydain, o ran techneg ac o ran agwedd meddwl. Bwriadai ddringo mynyddoedd uchaf y byd; ychydig cyn ei farwolaeteh gwahoddasai G. W. Young i ymuno ag ef 'for Everest '. Ond yr oedd ei gariad at Gadair Idris yn ddihareb a cheryddai Saeson am gamynganu enwau Cymraeg.

Ymhlith ei esgyniadau cyntaf anhawsaf yr oedd Kern Knotts Crack ar Great Gable (1897) a'r Terrace Wall Variant ar Tryfan (1899): ond y ddringfa fwyaf poblogaidd a grewyd ganddo yw llwybr cyffredin bwtres y Garreg Filltir, lle mae Tryfan yn cyfarfod yr A5 wrth Lyn Ogwen.

Awdur

Dr Ioan Bowen Rees, (1929 - 1999)

Ffynonellau

Ysgrifau gan Jones yn *Alpine Journal*, 16, 18 a 19

W. M. Crook, bywgraffiad byr yn *Rock-climbing in the English Lake District* (Keswick 1900) (1900, ail arg.)

adolygiadau yn *Alpine Journal*, 19, 385 ac 20, 228

H. C. Bowen, *Alpine Journal*, 19, 583-5 ac F. C. Hill, ibid., 590-3

cyfrolau G. D. Abraham, yn enwedig *Mountain adventures at home and abroad* (Llundain 1910) (1910)

A. E. Douglas-Smith, *The City of London School* (Rhydychen 1937) (1937), 294 a 313

Claire-Éliane Engel, *They came to the hills* (Llundain 1952) (1952), pennod arno

R. W. Clark ac E. C. Pyatt, *Mountaineering in Britain a history from the earliest times to the present day* (Llundain 1957) (1957), pennod

Ioan Bowen Rees, *Galwad y mynydd chwe dringwr enwog* (Llandybie 1961) (1961), pennod

idem, *Mynyddoedd, ysgrifau a cherddi* (Llandysul 1975) (1975), 82-90

Alan Hankinson, *Camera on the crags, a portfolio of early rock climbing photographs* (Llundain 1975) (1975), 1-21

idem, *The Mountain Men, an early history of rock climbing in North Wales* (Llundain 1977) (1977), 61-2, 70-80, 157-9

rhaglen deledu BBC Cymru, 30 Hydref 1967

gwybodaeth gan Nancy Harper (merch ei chwaer), Megan Williams (merch ei gyfnither, Mrs. John Evans) ac Enid Wilson (merch George Abraham)

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 46548601

Wikidata: Q7114491

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF Argraffu Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Rees, I. B., (1997). JONES, OWEN GLYNNE (1867 - 1899), mynyddwr ac athro ysgol. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c5-JONE-GLY-1867

Copïo'r cliprwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGELL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government